**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 2 MEDI 2020 DYDD MERCHER, 2 MEDI 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Rheolwr Gyfarwyddwr<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Chyflogaeth | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |

**COFNODION**

**No. 4** **PWYLLGOR GWEITHREDOL**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2020.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion.

**EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**No. 5** **BLAENRAGLEN WAITH ARFAETHEDIG Y PWYLLGOR GWEITHREDOL**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arweinydd/Aelod Gweithredol – Gwasanaethau Corfforaethol.

Dywedodd yr Arweinydd fod Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gweithredol yn gydnaws gyda'r rhaglenni gwaith Craffu a gytunwyd cyn gwyliau mis Awst. Ychwanegodd yr Arweinydd fod Deiliaid Portffolio yn unigol ac ar y cyd fel Pwyllgor Gweithredol wedi ystyried y Rhaglen Waith, felly

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo.

**No. 6** **GRANTIAU I SEFYDLIADAU**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.

Adroddwyd y grantiau ychwanegol dilynol:-

**GLYNEBWY**

**Ward Badminton - Cynghorydd C. Meredith**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Eglwys Dewi Sant / Eglwys Bywoliaeth Glynebwy | £ |
| 2. | Cymdeithas Rhandiroedd Glanffrwd | £ |

**Ward Badminton – Cynghorydd G. Paulsen**

| | | |
|---|---|---|
| | 1. Eglwys Dewi Sant / Eglwys Bywoliaeth Glynebwy £200<br>2. Cymdeithas Rhandiroedd Glanffrwd £150<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION YR AMGYLCHEDD** | |
| **No. 7** | **RHAGLEN GWEITHIAU CYFALAF PRIFFORDD 2017 – 2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd ar Raglen Gweithiau Cyfalaf Priffyrdd 2017-2021 ac yn cyflwyno opsiynau am Raglen Gweithiau 2020-2021 i'w hystyried. Ychwanegodd y Swyddog y bwriadwyd cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Chwefror, fodd bynnag cafodd ei ohirio er mwyn canfod os byddai cyfalaf ychwanegol ar gael erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, cafodd yr adroddiad ei ohirio oherwydd yr effaith ar wasanaethau fel canlyniad i COVID-19.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol ymhellach am yr adroddiad ac amlinellu'r pwyntiau allweddol ynddo. Dywedodd fod canfyddiad y cyhoedd o briffyrdd yn ymwneud â chyflwr ffyrdd mewn ardaloedd preswyl lleol. Mae atgyweiriadau ymatebol i dyllau yn y ffyrdd a wyneb ffyrdd yn ffordd gostus a llai effeithlon o gynnal a chadw y briffordd. Roedd cyfanswm canran y ffyrdd diddosbarth mewn cyflwr gwael cyn gwaith priffyrdd yn 17%, fodd bynnag yn dilyn gwaith yn ystod y ddwy flynedd flaenorol cafodd y ffigur ei ostwng i 11.4%. Byddai rhaglen arfaethedig 2020-2021 yn parhau i ganolbwyntio ar ffyrdd preswyl/ochr/diddosbarth. Yn ychwanegol at y gweithiau hyn, cynigiwyd hefyd fod gwaith yn cael ei wneud i nodweddion hanfodol ar briffyrdd megis rhwystrau diogelwch, arwyddion traffig gyda golau mewnol a mesurau gostwng cyflymder.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod y Pwyllgor Craffu wedi croesawu'r adroddiad gyda'r amod y bydd unrhyw feysydd penodol a gyflwynir gan Aelodau Ward yn cael eu | |

| | | |
|---|---|---|
| | hystyried yn unol â'r matrics blaenoriaeth.<br><br>Croesawyd yr adroddiad gan yr Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd a nododd y sylwadau a godwyd yn y Pwyllgor Craffu. Dywedodd yr Aelod Gweithredol fod y rhaglen gweithiau priffyrdd yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor hwn ac ymrwymodd i fonitro ac adolygu'r rhaglen yn unol â hynny.<br><br>Ychwanegodd yr Aelod Gweithredol dros Adfywio a Datblygu Economaidd fod y gweithiau priffyrdd yma yn hanfodol i'n cymunedau a bod buddsoddiad wedi gweld ffyrdd preswyl yn cael eu codi i safon derbyniol. Croesawodd y byddai'r gwelliannau hyn yn parhau gan eu bod yn bwysig i breswylwyr.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y rhoddwyd ymrwymiad i breswylwyr yn 2017 i godi ffyrdd preswyl, ochr a diddosbarth lan i safon dderbyniol. Cyflawnwyd yr ymrwymiad hwn a dywedwyd fod Atodiadau A-C yn amlinellu'n glir faint y gweithiau a gwblhawyd. Gobeithid y byddai'r ymrwymiad hwn yn parhau am 20 mis arall a thu hwnt gan mai ein huchelgais yw dod â phob ffordd breswyl lan i 100% defnydd priodol.<br><br>Cynigiodd yr Arweinydd bod yr Aelod Gweithredol – Amgylchedd a Phennaeth Gwasanaethau Cymunedol yn adolygu camau nesaf y Rhaglen Gwella Priffyrdd. Unwaith y cwblhawyd y gwerthusiad hwn, awgrymwyd y dylai trafodaethau gael eu hymestyn i'r Prif Swyddog Adnoddau a'r Arweinydd o safbwynt ariannol i sicrhau y gellid cynnal y gwelliannau yn y dyfodol. Byddai hyn yn sicrhau fod rhaglen gadarn o weithiau yn ei lle i roi ymrwymiad clir i'r Cyngor a'r preswylwyr a gynrychiolwn y bydd gweithiau gwella priffyrdd yn parhau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn Opsiwn A, a chefnogi blaenoriaethau Rhaglen Gweithiau Cyfalaf Priffyrdd 2020-2021. | |
| **No. 8** | **<u>AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL</u>**<br><br>Cynigiodd yr Arweinydd bod cyfarfodydd y dyfodol yn cael eu cynnal i ddechrau am 10.00 a.m.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny. | |